**John Griffiths AC /AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon**
**Minister for Natural Resources, Culture and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref SF/JG/1974/14
Christine Chapman AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

25 Gorffennaf 2014

Chris,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Gorffennaf a oedd yn cyfeirio at y cyfarfod Pwyllgor a fynychais ar 3 Gorffennaf. Yn ystod y sesiwn graffu gyffredinol honno, cytunais i roi rhagor o wybodaeth am nifer o'r materion a drafodwyd gennym ac mae'r rhain wedi'u nodi'n llawn yn **Atodiad 1** isod.

Rwy'n ffyddiog fy mod i wedi mynd i'r afael ag ymholiadau'r Pwyllgor yn llawn ac edrychaf ymlaen at barhau i weithio'n agos gyda chi yn y dyfodol.

John Griffiths

**John Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon
Minister for Natural Resources, Culture and Sport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.John.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

**Atodiad 1**

***1) Darparu ffigurau'r cynnydd yn niferoedd yr ymwelwyr â henebion Cadw ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn hon;***

Aeth bron 400,000 o bobl i ymweld â henebion Cadw, sydd â 30 aelod o staff yn gweithio yno, yn ystod chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2014-15, sy'n gynnydd o dros 7% ers y llynedd. Mae'r cynnydd sylweddol ym mis Ebrill yn dangos yn amlwg fudd cyfnod gwyliau'r Pasg, o ran dechrau'r flwyddyn yn dda, o gymharu â 2013-14, lle nad oedd cyfnod y Pasg. Roedd y tywydd da dros gyfnod y Pasg 2014 yn amlwg yn fantais: bydd tywydd bob amser yn ffactor i safleoedd treftadaeth, sy'n tueddu i fod yn agored i'r tywydd mawr.

| **Ffigurau Ymwelwyr C1** | **2013-14** | **2014-15** | **Tuedd** |
|---|---|---|---|
| Ebrill | 102,169 | 133,503 | +31% |
| Mai | 138,478 | 135,121 | -2% |
| Mehefin | 120,443 | 116,930 | -3% |
| Cyfanswm | 361,090 | 385,554 | **+7%** |

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r peiriannau cyfrif ymwelwyr yn safleoedd Cadw lle nad oes staff yn gweithio ynddynt, wedi datgelu bod nifer yr ymwelwyr ar gynnydd, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 2010 | 750,826 o ymweliadau |
| 2011 | 1,086,143 |
| 2012 | 1,079,056 |
| 2013 | 1,108,259 |

**Buddsoddi yn y cynnig i ymwelwyr**

Addawais roi gwybodaeth i'r Pwyllgor am sut y gall buddsoddi mewn cyfleusterau ymwelwyr a rhaglenni dehongli sicrhau canlyniadau. Mae effaith gadarnhaol buddsoddiad diweddar mewn canolfannau i ymwelwyr a rhaglenni dehongli wedi dangos, yng Nghastell Dinbych, er enghraifft, fod y swyddfa tocynnau ar ei newydd wedd a'r rhaglen ddehongli newydd wedi arwain at gynnydd o 39% yn nifer yr ymweliadau rhwng 2010-11 a 2013-14.

Yng Nghastell Caerffili, yn sgil gosod rhaglen ddehongli newydd yn 2013, 12,089 oedd nifer yr ymwelwyr yn ystod mis Ebrill 2014 (sef yr uchaf ar gofnod), sy'n gynnydd o 3,132 o gymharu â'r un mis yn 2013.

Ar ôl gweddnewid y rhaglen ddehongli yng nghyswllt adroddiad ceidwaid Castell Conwy, gwelwyd ymwelwyr yn treulio mwy o amser yno, a chynyddodd gwariant ymwelwyr ar nwyddau manwerthu yn y siop ar ei newydd wedd 11% yn y flwyddyn gyntaf (2013-14).

Mae buddsoddi mewn digwyddiadau a gweithgareddau yr un mor allweddol i ddenu ymwelwyr i safleoedd treftadaeth â buddsoddiad cyfalaf. Yn sgil cynnal yr Ŵyl Fwyd Hynod Wyllt yn Llys Esgob Tyddewi ym mis Mai 2013, daeth 5,764 o ymwelwyr yno o gymharu â dim ond 198 y flwyddyn cynt. Cafodd 750 o bobl eu denu i ddigwyddiad newydd i ddathlu heuldro'r haf ym Mryn Celli Ddu, Ynys Môn ym mis Mehefin 2014.

**Boddhad cwsmeriaid**

Yn Arolwg Ymwelwyr Cadw 2013, gwelwyd ymatebwyr yn rhoi sgôr allan o 10 i'w hymweliad, o safbwynt eu boddhad a'u disgwyliadau. Y sgôr foddol oedd 9/10, sy'n gynnydd

sylweddol o 8.5/10 yn 2011, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y sgoriau cyson uchel ar wefannau fel Trip Advisor.

Ers 2011, mae boddhad pobl, o ran pa mor addas yw atyniad ar gyfer plant, wedi cynyddu'n aruthrol. Mae pa mor addas yw arddangosfeydd a gwybodaeth i blant rhwng 8 a 15 wedi codi 21% (i 58%) ac mae pa mor addas yw arddangosfeydd a gwybodaeth i blant o dan 7 oed wedi codi 20% (i 42%). Bydd hyn yn cynyddu ymhellach wrth i'r rhaglen ddehongli gael ei chyflwyno ar draws mwy o safleoedd.

***2) Rhoi manylion y gwaith a gyflawnwyd gan Cadw hyd yma mewn perthynas â lleihau ei ôl troed carbon a'i filiau cyfleustodau;***

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i leihau allyriadau carbon 3 y cant o flwyddyn i flwyddyn, ac mae ganddi darged o'u lleihau 30 y cant erbyn 2020. Cyfeirir at hyn fel Ymrwymiad Lleihau Carbon Llywodraeth Cymru.

Mae Cadw yn cyflwyno adroddiadau'n flynyddol yn erbyn yr Ymrwymiad Lleihau Carbon ac mae wedi sicrhau gostyngiad cronnus o 2% (yn erbyn blwyddyn sylfaen 2010) yn ei allyriadau carbon. O gofio'r cyfyngiadau archaeolegol sensitif a wynebir gan henebion rhestredig dan ofal y Wladwriaeth, y galw cynyddol am ddehongliadau electronig, y nifer fwy o ddigwyddiadau a gweithgareddau masnachol ynghyd â'r ffaith bod dau eiddo ychwanegol wedi cael eu caffael dan ofal y Wladwriaeth yn y blynyddoedd diwethaf - mae hyn yn dipyn o gamp.

Mae Cadw wedi rhoi sawl menter lleihau carbon ac ynni ar waith ar draws ei ystad, yn cynnwys:

- Gosod unedau LED ynni isel yn lle llifoleuadau ynni uchel wrth bob heneb dan ofal sydd wedi'i llifoleuo. Yn sgil y fenter hon, a gafodd ei datblygu, ei chynllunio a'i gweithredu gan Cadw, mae'r allyriadau carbon a'r defnydd cysylltiedig o ynni wedi lleihau 50 y cant. Mae Historic Scotland wedi astudio'r fenter hon ac mae'n cynnig cyflwyno'r un prosiect ym mhob un o'r henebion dan ei ofal dair blynedd ar ôl Cadw;

- Gosod unedau LED ynni isel yn lle goleuadau mewnol gan arbed tuag 80 y cant o ynni a charbon. Mae'r unedau golau hyn yn cynhyrchu llai o wres ac yn lleihau'r angen am systemau aerdymheru, gan greu mwy o arbedion byth;

- Gosod mesuryddion deallus ym mhob un o henebion Cadw sydd â phŵer er mwyn cofnodi'n awtomatig faint o ynni a gaiff ei ddefnyddio. Mae hyn yn fodd i graffu'n well ar y defnydd o ynni gan alluogi camau cywirol i gael eu cymryd mewn ardaloedd sy'n defnyddio'r mwyaf o ynni;

- Mae'r holl ganolfannau ymwelwyr a'r datblygiadau newydd wedi'u cynllunio a'u hadeiladu ar sail egwyddorion Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) ac maent yn cynnwys cyfleuster cynhyrchu pŵer ar y safle lle bynnag y bo'n ymarferol. Mae Pwmp Gwres o'r Ddaear, system awyru naturiol, paneli ffotofoltäig a System Rheoli Adeiladau gyda sgrin data byw ar gael yn y ganolfan ymwelwyr yng Nghastell Dinbych, a agorodd yn 2012. Pwrpas y sgrin data byw yw galluogi'r ymwelwyr i weld mewn 'amser real' faint o ynni sydd wedi cael ei ddefnyddio a'i gynhyrchu. Gosodwyd system debyg ym mis Ebrill 2013 yn ystod y gwaith o adnewyddu'r ganolfan ymwelwyr yn llwyr yn Abaty Tyndyrn lle gall plant ar deithiau ysgol weld a dysgu sut rydym ni'n gofalu am ein hamgylchedd;
- Bydd gwaith datblygu sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd wrth ymyl Castell Harlech, sy'n Safle Treftadaeth y Byd, yn darparu canolfan ymwelwyr a dehongli newydd o fewn Gwesty'r Castell gynt. Mae addasu a chadw'r adeilad hwn o Oes Fictoria yn

rhan greiddiol o'r prosiect hwn; caiff cryn dipyn o allyriadau carbon, ac arian, eu harbed drwy gadw ac ailddefnyddio adeiladau sy'n bodoli eisoes - fel yr un hwn. Mae Pympiau Gwres o'r Aer yn cael eu gosod ar gyfer gwresogi ac oeri'r cyfleuster newydd. Caiff goleuadau a rhaglen ddehongli dafluniedig eu darparu gan ddefnyddio offer LED ynni isel.

Mae manteision y mentrau hyn bellach yn cael ei gwireddu. Mae data (nad yw wedi'i gyhoeddi eto) a gasglwyd drwy'r Ymrwymiad Lleihau Carbon ar gyfer y cyfnod 2013/14 yn nodi gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn o 12 y cant yn Allyriadau Carbon Deuocsid Hysbysadwy Cadw; dyma'r gostyngiad mwyaf yn ystod 2013/14 o holl ardaloedd portffolio Llywodraeth Cymru.

Mae perthynas uniongyrchol rhwng y gostyngiad mewn carbon a chost ynni; er enghraifft, pe bai Cadw yn lleihau cyfanswm ei allyriadau carbon 9% (fel y nodir uchod) – mae'r 12% yn cynrychioli'r hyn y mae'n ofynnol iddo gyflwyno adroddiad arno o dan y cynllun Ymrwymiad Lleihau Carbon – yna bydd ei gostau ynni yn gostwng (i bob pwrpas) 9% yn yr un modd.

***3) Rhagor o wybodaeth am y gwaith a gaiff ei gyflawni gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ynghylch y ffaith bod angen i awdurdodau lleol sicrhau cyswllt rhwng ysgolion a llyfrgelloedd yn eu hardaloedd;***

Drwy'r cynllun peilot Pob Plentyn yn Aelod o'r Llyfrgell (ECALM), a lansiwyd yn ddiweddar, mae chwe llyfrgell gyhoeddus yng Nghymru wedi bod yn gweithio'n agos gydag ysgolion cynradd yn eu hawdurdodau er mwyn cofrestru pob disgybl Blwyddyn 4 yn awtomatig i'w llyfrgell leol. Mae bron bob plentyn wedi cael ei gyrraedd yn ystod y tri mis diwethaf a chyfarfu swyddogion CyMAL â chynrychiolwyr llyfrgell o'r chwe awdurdod a threfnwyr y cynllun peilot i drafod gwaith hyd yma a'r canfyddiadau cychwynnol.

Yr adborth cynnar yw bod plant a'r rhan fwyaf o'r ysgolion a'r athrawon wedi bod yn frwdfrydig iawn dros y peilot a bod arwyddion cychwynnol bod y defnydd o'r llyfrgell a benthyca llyfrau eisoes wedi cynyddu. Gall defnyddio llyfrgelloedd helpu ysgolion gyda sawl agenda bwysig, yn arbennig llythrennedd, trechu tlodi a sgiliau digidol. Mae'r prosiect ECALM yn ffordd wych i ysgolion a llyfrgelloedd weithio'n agosach gyda'i gilydd i helpu i annog plant i ddarllen er pleser ac i helpu i wella sgiliau llythrennedd.

Trafodwyd y cynllun peilot hwn mewn cyfarfod dwyffordd a gefais gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ym mis Tachwedd 2013.

Dangosodd yr adborth cychwynnol gan y chwe awdurdod peilot iddynt wynebu rhai heriau wrth weithio gyda chydweithwyr yn eu hadrannau addysg lleol o ran cael mynediad at y data angenrheidiol, cael mynediad i'r ysgolion, dosbarthu'r cardiau llyfrgell a hefyd o ran trefnu ymweliadau dosbarth. Er bod rhai ysgolion a phersonél yn gymwynasgar ac yn frwdfrydig iawn, ar y cyfan, roedd y sefyllfa'n anodd.

Byddai felly'n gyfle ardderchog i gryfhau'r cyswllt rhwng yr ysgolion a'r llyfrgelloedd.

***4) Darparu'r ffigurau ar gyfer buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn amgueddfeydd y tu allan i Gaerdydd;***

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi'n uniongyrchol mewn amgueddfeydd ledled Cymru mewn dwy brif ffordd: rhoi arian craidd i Amgueddfa Cymru – National Museum Wales (AC-

NMW), sy'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, a chymorth i amgueddfeydd lleol drwy CyMAL.

Caiff arian ar gyfer AC-NMW ei ddefnyddio i weithredu saith safle ledled Cymru, yn cynnwys dau yng Nghaerdydd (Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a Sain Ffagan) a phum safle y tu allan i Gaerdydd (Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru - Caerllion, y Pwll Mawr, Amgueddfa Wlân Cymru - Dre-fach Felindre, Amgueddfa Lechi Cymru - Llanberis ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau - Abertawe) yn ogystal â'r costau cymorth canolog ar gyfer y sefydliad na ellir eu rhannu yn ôl safle, fel yr adrannau Casglu, Ymchwilio a Dysgu.

Yn 2014-15 mae Llywodraeth Cymru yn rhoi £22,436,000 o arian refeniw i AC-NMW, yn ogystal â £2,993,000 o gyfalaf (y mae £1,855,000 ohono ar gyfer prosiect ailddatblygu Sain Ffagan). Cafodd £4,356,100 o gymorth grant Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio'n benodol i gefnogi'r gwaith o weithredu'r safleoedd hynny y tu allan i Gaerdydd. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys costau sylweddol yr adrannau hynny sydd wedi'u lleoli'n ganolog yng Nghaerdydd ond y caiff safleoedd ledled Cymru gymorth ganddynt.

Mae CyMAL yn buddsoddi mewn amgueddfeydd lleol yn bennaf drwy grantiau sydd fel arfer yn cael eu hadennill mewn ôl-ddyledion. Mae tair amgueddfa leol yng Nghaerdydd wedi eu hachredu ac felly maent yn gymwys i gael grantiau CyMAL: Castell Caerdydd, the Cardiff Story a Firing Line. Yn 2014-15, mae cyfanswm o £419,976 wedi'i ddyrannu y tu allan i Gaerdydd ac mae £10,000 wedi'i ddyrannu yng Nghaerdydd (i the Cardiff Story).

Rhwng 2004, pan sefydlwyd CyMAL, a diwedd 2013/14, roedd £4.6 miliwn wedi cael ei fuddsoddi mewn prosiectau amgueddfeydd lleol ledled Cymru.
Aeth £4 miliwn o'r swm hwn i amgueddfeydd lleol y tu allan i Gaerdydd a rhoddwyd £0.5 miliwn i brosiectau 'Cymru gyfan' y gallai amgueddfeydd Caerdydd fod wedi elwa ohonynt.

Yn ogystal â grantiau, mae CyMAL wedi ariannu rhaglen fach o archwiliadau Mynediad ac asesiadau manwerthu hefyd (cyfanswm o £28,656 dros ddwy flynedd – 2012/14). Hyd yma, nid yw'r un amgueddfa yng Nghaerdydd wedi bod yn gysylltiedig â hyn. Mae CyMAL hefyd yn buddsoddi mewn amgueddfeydd lleol drwy ariannu cyfranogiad yr 88 o amgueddfeydd lleol achrededig yng Nghynllun Sicrhau Ansawdd Atyniadau i Ymwelwyr Visit Britain, a thrwy ddarparu rhaglen hyfforddiant.

***5) Manylion y gwaith ymchwil a wnaed mewn perthynas â risgiau iechyd oedolion eisteddog mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol gwahanol;***

Mae Chwaraeon Cymru wedi comisiynu arolygon ar raddfa fawr o gyfranogiad oedolion mewn chwaraeon a hamdden yng Nghymru ers 1987. Caiff y data hwn ei gasglu bob dwy flynedd ac mae wedi bod yn fodd i ddatblygu a llywio polisïau, cynlluniau, rhaglenni a gwaith ymchwil pellach. Mae data'r arolwg yn galluogi Chwaraeon Cymru i ddeall ymhellach beth sy'n cymell ac yn rhwystro oedolion yng Nghymru rhag cymryd rhan mewn chwaraeon a'r galw heb ei ateb yng nghyswllt hynny.

Mae'r canlyniadau yn dangos ein wedi mynd yn groes i'r tueddiadau hirdymor o ran cyfranogiad oedolion am fod 262,000 yn fwy o oedolion wedi magu awydd ynddynt i gymryd rhan mewn chwaraeon a bod cysylltiadau amlwg rhwng cymryd rhan yn fwy rheolaidd mewn chwaraeon ac iechyd corfforol a meddyliol.

Mae'r data yn awgrymu bod chwaraeon yn cyfrannu at iechyd y genedl yn y dyfodol ac yn ateb yr heriau a wynebwn yng nghyswllt salwch y gellir ei atal fel gordewdra. Rydym ni hefyd wedi gweld cynnydd yn gyffredinol, ond ceir bylchau o hyd o ran cyfranogiad, sydd hefyd yn adlewyrchu'r rhai a amlygir gan yr Arolwg Chwaraeon Ysgolion. Mae cyhoeddiad

diweddar Chwaraeon Cymru ei fod yn bwriadu buddsoddi £3 miliwn yn rhaglen Calls4Action wedi'i gynllunio'n benodol i fynd i'r afael â'r bylchau hyn.

Mae'r Arolwg yn dangos cysylltiad amlwg rhwng mwynhad, magu awydd am chwaraeon yn yr ysgol a chymryd rhan fel oedolion. Mae hyn yn cefnogi'r alwad i ganolbwyntio'n fwy ar lythrennedd corfforol a chodi proffil addysg gorfforol mewn ysgolion. Teimlaf fod cydweithredu ar draws sectorau a chanlyniadau cyffredin, fel y rheini a ddaw yn sgil Cymunedau yn Gyntaf, yn allweddol i sicrhau mwy o gyfranogiad yn y dyfodol.

Mae arolwg Oedolion Egnïol Chwaraeon Cymru yn dangos bod nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon wedi cynyddu o 56% yn 2008-09 i 70% yn 2012 a bod 39% o oedolion wedi magu awydd ynddynt i gymryd rhan mewn chwaraeon, sy'n golygu eu bod yn gwneud hynny fwy na thair gwaith yr wythnos – cynnydd o 10 pwynt canrannol.

***6) Egluro i ba raddau y mae cyfleusterau chwaraeon yn cael eu cynnwys yn yr asesiadau digonolrwydd cyfleoedd chwarae a gynhelir gan awdurdodau lleol;***

Efallai y bydd y wybodaeth ganlynol yn ddefnyddiol:

O dan Fater C (Llefydd ar gael i blant chwarae) o Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, dylai'r Awdurdod Lleol gydnabod y dylai pob man agored, yn cynnwys y rhai sydd, er nad ydynt yn berchen iddynt, yn hygyrch i'r cyhoedd yn eu hardal, o bosibl yn ardaloedd pwysig lle gall plant chwarae neu basio drwyddynt i gyrraedd ardaloedd chwarae eraill neu lefydd lle byddant yn mynd.

Fel rhan o'r Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae dylai Awdurdodau Lleol droi at Asesiadau o Fannau Agored a gynhaliwyd eisoes a ffynonellau eraill o wybodaeth leol i fapio ardaloedd a ddefnyddir i chwarae neu y gellid eu defnyddio i chwarae. Dylai'r mannau agored dan sylw gynnwys y rheini a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru Llywodraeth Cymru a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 16 "Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored"; Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12 "Dylunio" a Chreu Cymru Egnïol (2009) yn ogystal â safleoedd tir llwyd; strydoedd preswyl; a thir ysgolion.

Mae cyfleusterau chwaraeon yn perthyn i'r rhestr ym Mater C o Fannau chwarae dynodedig yn yr awyr agored lle nad oes staff. Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried yn ei asesiad feysydd hamdden (chwaraeon) (naturiol ac artiffisial) a Mater D (darpariaeth dan oruchwyliaeth).

Ym mis Mawrth 2013, cyflwynodd Awdurdodau Lleol eu Hasesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'u Cynlluniau Gweithredu i Lywodraeth Cymru.

Nododd yr Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a oedd awdurdodau lleol yn cydnabod pwysigrwydd meysydd chwarae i gyfleoedd plant i chwarae ai peidio ac yn cynnwys plant, pobl ifanc a'u teuluoedd mewn unrhyw ymgynghoriadau ar benderfyniadau o'r fath. Nodwyd bod Awdurdodau Lleol yn gweithio tuag at y nod hwn.

Cydnabu'r Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae fod darparu cyfleoedd chwarae dan oruchwyliaeth yn rhan o gyflawni Nod Craidd 4 ar gyfer chwaraeon, hamdden a diwylliant, ac yn rhan o'r "Cynllun Creu Cymru Egnïol" lleol.

***7) Rhagor o wybodaeth am ymateb Cyngor y Celfyddydau i lythyr cylch gwaith 2014 – 15 y Gweinidog a ofynnodd iddynt roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ysgrifenedig am doriadau i gyllidebau celfyddydol yr awdurdodau lleol;***

Yn y Pwyllgor, cytunais i roi copi o'r wybodaeth ddiweddaraf rwyf wedi'i chael gan Gyngor Celfyddydau Cymru o ran yr ymrwymiad yn fy Llythyr Cylch Gwaith i Gyngor Celfyddydau Cymru y dylai roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi yn ysgrifenedig am effaith toriadau i gyllidebau celfyddydol yr awdurdodau lleol. Atodir hyn yn **Atodiad 2**.

Byddwch am nodi nad yw'r toriadau i'r cyllidebau celfyddydol wedi'u rhoi ar waith yn llwyr eto ar draws pob awdurdod lleol ac felly, nid yw effaith na difrifoldeb y toriadau hyn wedi'u hasesu'n llwyr eto. Yn sgil hyn, rwyf wedi cytuno â Chyngor Celfyddydau Cymru y bydd yn gohirio'r gwaith o gyflwyno asesiad llawn o'r toriadau hyn hyd nes y cawn ddarlun cliriach. Cynhelir yr asesiad hwn ym mis Hydref bellach ac fe roddaf ragor o fanylion am yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor maes o law.

***8) Rhagor o wybodaeth am hyfywedd hirdymor menter 'Llyfrau Llafar Cymru';***

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor rwyf wedi tynnu sylw Prif Weinidog Cymru a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y materion a godwyd gan Rhodri Glyn Thomas AC mewn perthynas â Llyfrau Llafar Cymru.

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2011-12, cafodd Llyfrau Llafar Cymru £35,000 gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo Llyfrau Llafar Cymru gyda'i threfniadau pontio fel sefydliad gwirfoddol yn annibynnol ar Gymdeithas y Deillion Gogledd Cymru.

***9) Rhagor o wybodaeth am unrhyw effaith dod â'r Gronfa Radio Cymunedol i ben;***

Sefydlwyd y Gronfa Radio Cymunedol yn 2008 i gydnabod y rôl bwysig y mae gorsafoedd radio cymunedol yn ei chwarae yn eu cymunedau. Fe'i sefydlwyd fel Cronfa bum mlynedd oedd â'r nod penodol o helpu i dalu am gostau craidd rhedeg gorsafoedd radio cymunedol. A hithau'n Gronfa bum mlynedd, roedd ar fin dod i ben yn 2012-13 ond penderfynwyd ei hymestyn am flwyddyn arall, gan roi'r cyfle i orsafoedd radio cymunedol ymchwilio i ffynonellau eraill o arian ac i baratoi ar gyfer dod yn hunangynhaliol ar ôl mis Mawrth 2014.

Yn ystod blwyddyn olaf y Gronfa, ymgysylltodd Llywodraeth Cymru'n agos â'r holl orsafoedd radio cymunedol a oedd yn cael grant gan y Gronfa Radio Cymunedol i roi cyngor iddynt ar ba gronfeydd eraill allai fod ar gael gan Lywodraeth Cymru. Hysbyswyd y gorsafoedd radio cymunedol o'r ffaith bod y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn lansio ar 3 Chwefror. Yn ogystal â hyn, cyhoeddodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ar 22 Ionawr y byddai'r sefydliadau gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau i gymunedau ledled Cymru yn elwa o £7.2 miliwn o arian newydd eleni gan Lywodraeth Cymru. Ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf perthnasol, gallai fod gan rai gorsafoedd radio cymunedol yr hawl i gael arian o dan y cynlluniau hyn.

Ym mis Chwefror 2014, cyhoeddodd yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ymgynghoriad ar radio cymunedol. Ymhlith yr argymhellion roedd:

- Diddymu'r cyfyngiadau sy'n atal rhai gorsafoedd radio cymunedol rhag cael unrhyw incwm o nawdd neu hysbysebion ar yr awyr os ydynt yn gorgyffwrdd â thrwydded radio masnachol sy'n darparu ar gyfer 150,000 o oedolion neu lai.

- Diddymu'r cyfyngiadau sy'n atal gorsafoedd radio cymunedol rhag cymryd mwy na 50% o'u hincwm blynyddol o nawdd neu hysbysebion ar yr awyr.

Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad hwnnw gan nodi ei bod yn croesawu unrhyw achos o ddiddymu'r cyfyngiadau a/neu newidiadau i'r cyfyngiadau a fyddai'n helpu

gorsafoedd radio cymunedol y mae'r rheoliadau yn effeithio arnynt, er mwyn eu galluogi i barhau i ddarparu'r gwasanaeth gwerthfawr a gynigir ganddynt yn eu cymunedau.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw orsaf radio cymunedol yng Nghymru sydd wedi rhoi'r gorau i weithredu o ganlyniad i gau Cronfa Radio Cymunedol Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol.

***10) Rhagor o wybodaeth am unrhyw effaith yn sgil lleihau faint o arian a roddir i Gyngor Llyfrau Cymru;***

Wrth ystyried dyrannu cyllidebau, bu'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd ar draws y portffolio Adnoddau Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon. Yn naturiol, ystyriwyd effaith y toriadau mewn arian ar gyfer Cyngor Llyfrau Cymru yn fanwl yn yr un modd ag ar gyfer y cyrff eraill yn y portffolio.

Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn sefydliad cymharol fach o fewn portffolio bach felly bydd lleihau faint o grant y bydd yn ei gael yn anochel yn cael effaith sylweddol ar y gwasanaethau y gall y Cyngor eu darparu.

Fodd bynnag, rwy'n ymwybodol y bod y gwaith o ddyrannu cyllideb ar gyfer Cyngor Llyfrau Cymru yn heriol iawn. Ond rwy'n ffyddiog y bydd Cyngor Llyfrau Cymru yn gallu parhau i gefnogi'r diwydiant cyhoeddi yn y ddwy iaith.

Hyd yma, mae Cyngor Llyfrau Cymru wedi gallu delio â'r toriadau heb effeithio ar nifer y llyfrau a gaiff eu gwerthu. Roedd hyn yn amlwg o'r ffaith bod gwerthiannau drwy Gyngor Llyfrau Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2013-14 wedi cynyddu 5% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn amlwg, mae angen inni gydnabod y gallai toriadau pellach effeithio ar raglenni yn y dyfodol.